| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Tachwedd 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwiliad Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol** |

## 1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd diweddaraf Archwiliad Mewnol o safbwynt darparu gwasanaeth, rhoi sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd ar gyfer gwella.

## 2. Beth yw'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn?

Cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â:

- chyflenwi ein Cynllun Sicrwydd ar gyfer 2013/14
- adroddiadau Archwiliad Mewnol diweddar a gyhoeddwyd
- ymateb rheolwyr i faterion a godwyd
- Perfformiad Archwiliad Mewnol

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn ystyried a chyflwyno sylwadau ar gynnydd a pherfformiad Archwiliad Mewnol hyd yma yn 2013/14
- Bod y Pwyllgor yn ystyried a chyflwyno sylwadau ar adroddiadau Archwiliad Mewnol diweddar a gyhoeddwyd a chamau dilynol

## 4. Cynnydd Archwiliad Mewnol

***Darparu'r Cynllun Sicrwydd Archwiliad Mewnol 2013/14***

4.1 Mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad o'n gwaith yn ystod 2013/14, o'i gymharu â'r Strategaeth Archwiliad Mewnol. Mae'n cynnwys sgorau sicrwydd a nifer o faterion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, diffiniadau a ddefnyddiwyd ar gyfer ein sicrwydd archwilio a'r cyfraddau a ddefnyddiwyd i asesu'r lefelau risg ar gyfer materion a godwyd.